



Uned Ymchwil Arennol Cymru Wales Kidney Research Unit



Codi ymwybyddiaeth



Lledaenu
canlyniadau



Addysgu myfyrwyr



Ymgysylltu â'r cyhoedd
a chleifion



Dysgu am arenau



Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru
Health and Care
Research Wales



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

2023 - 2024 Adroddiad blynyddol



CYNNWYS

- RHAGAIR A RHAGYMDRODD	3
- UWCH DÎM A STAFF CRAIDD UYAC	4
- AELODAETH UYAC	5
- CRYNODEB	6
- METRIGAU CRAIDD UNED YMCHWIL ARENNOL CYMRU	7
- PECYNNAU GWAITH UYAC	
RHEOLI	8
SEILWAITH YMCHWIL	8
BIOBANCIO	9
GWEITHGAREDD YMCHWIL	11
YMCHWIL AG EFFAITH	12
EFFAITH TREIALON CLINIGOL	14
HYFFORDDI	15
LLEDAENU GWYBODAETH AC YMGYSYLLTU	20
CYFRANNU AT GYNLLUNIO YMCHWIL	21
- CWRDD AG AELODAU O DÎM UYAC	23
- CYNADLEDDAU	24
- CASGLIAD	27



R H A G A I R

Croeso i Adroddiad Cyhoeddus 2024 Uned Ymchwil Arennol Cymru (UYAC). Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi blwyddyn arall o ymchwil ymroddedig, datblygiadau gofal cleifion, ac ymgysylltu â'r gymuned yn ein cenhadaeth barhaus i wella iechyd yr arenau a chanlyniadau triniaeth yng Nghymru a thu hwnt.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae UYAC wedi parhau i arwain ar fentrau ymchwil arloesol, cydweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol blaenllaw, ac ymgysylltu â chymunedau i feithrin gwell dealltwriaeth a mynd i'r afael â chymhlethdodau clefyd yr arenau. Mae ein hymdrechion yn cael eu harwain gan ymrwymiad i ragoriaeth mewn ymchwil, gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, a lledaenu gwybodaeth i wella arferion clinigol a pholisïau iechyd y cyhoedd.

Yn 2024, camodd ein hymchwil ymlaen yn sylweddol mewn sawl maes allweddol, gan gynnwys canfod clefyd yr arenau a'i gymhlethdodau yn gynnar a'i atal, profi dulliau therapiwtig newydd, a gwella protocolau gofal cleifion. Cewch ddarllen am rai o'r ymchwilwyr talentog iawn sydd yn gwneud y gwaith yma.

Mae'r UYAC yn parhau i fod yn gadarn ei nod o feithrin amgylchedd o ymchwilio ar y cyd. Pob blwyddyn, ein bwriad yw darparu "archwiliad dwfn" i un neu fwy o rannau allweddol y gwaith hwn. Eleni, rydym wedi amlygu rôl allweddol bwysig biobancio. Yma mae arwyr di-glod sydd wrthi yn gwneud i'r biobancio weithio yn y cefndir. Mae hyn yn cynnwys staff sy'n cyflawni'r gweithgareddau biobancio, a hefyd y cleifion, aelodau'r cyhoedd a'r staff sydd yn rhoi o'u hamser i adolygu gweithgareddau a gwneud penderfyniadau awdurdodi ar gyfer

cynigion ymchwil. Rydym hefyd wedi amlygu treialon ar gyfer triniaethau newydd a gweithgareddau tebyg ar draws Cymru sydd yn dod ag opsiynau triniaeth newydd i gleifion. Trwy'r rhain, mae aelodaeth UYAC yn gwneud cyfraniad mawr i'r ymdrech fyd-eang i wella triniaethau ar gyfer clefyd yr arenau ac yn cynyddu'r opsiynau triniaethau sydd gan bobl yng Nghymru y mae clefyd yr arenau yn effeithio arnynt.

Hyfforddi, lledaenu ac ymgysylltu yw conglfeini eraill ein gweithgareddau y darllenwch amdanynt yma. Yn UYAC, rydym yn cydnabod pa mor hanfodol bwysig yw rhoi cyfle i bawb ddeall ymchwil ac i gymryd rhan. Os oes gennych chi syniadau neu geisiadau yn y meysydd hyn, rydym am glywed gennych chi!

Wrth inni fyfyrto ar y cynnydd a wnaed yn 2024, rydym hefyd yn adnewyddu ein hymrwymiad i hyrwyddo ymchwil yr arenau a gwella canlyniadau i gleifion trwy ragoriaeth wyddonol, arloesi, ac ymgysylltu â'r gymuned. Diolchwn i'n hymchwilwyr ymroddedig, gweithwyr iechyd proffesiynol, cleifion a theuluoedd, comisiynwyr, ac i'n holl bartneriaid a chefnogwyr am eu cyfraniadau a'u hymroddiad i'n cenhadaeth gyffredin.

Gyda'n gilydd, rydym yn cymryd camau breision tuag at ddyfodol lle mae clefyd yr arenau yn cael ei ddeall yn well, ei drin yn well, ac yn y pen draw, ei atal yn well. Diolch ichi am eich cefnogaeth barhaus a'ch diddordeb yng ngwaith Uned Ymchwil Arennol Cymru.

Yr unig Uned Ymchwil Biofeddygol yn y DU a ariennir i ganolbwyntio yn gyfan gwbl ar Afiechyd yr Arenau

Mae 450,000 o bobl yng Nghymru yn dioddef gydag Chlefyd Cronig yn yr Arenau (CKD), ar Gamau III-V (llai na 50% o weithrediad ar ôl yn yr arenau) ac mae hynny yn golygu eu bod yn llawer mwy o tebygol o farw neu ddioddef afiechyd cardiofasgwlaidd.

Mae 10,000 o bobl yn derbyn sylw dilynol gan ofal arenol eilaidd, gyda 2,000 o bobl yn ddibynnol ar Therapi Adfer Arennol (RRT) i'w cadw'n fyw.

Mae'r UYAC wedi ei hadeiladu ar ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol ym mhob cam o'r llwybr drosiadol, o fecanweithiau afiechyd sylfaenol a gwell diagnosis, i wella gweithredu a chanlyniadau iechyd.

Goleuir llwyddiannau ymchwil yr UYAC gan gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr, darparwyr gwasanaeth a chomisiynwyr gwasanaeth, yn ogystal ag ymchwilwyr.

UWCH DÎM A STAFF CRAIDD UYAC



CYFARWYDDWR YR UNED
Yr Athro Donald Fraser

BANGOR



**Arweinydd
Ymchwil Gofal
Cymdeithasol**
Yr Athro Jane Noyes*



**Swyddog
Ymchwil**
Dr Leah
McLaughlin*

CAERDYDD



Rheolwr Uned
Dr Chantal Colmont



Cydymaith Ymchwil
Dr Irina Grigorieva*



**Arweinydd Estyn
Allan a Lledaenu
Gwybodaeth**
Dr Robert Steadman*



Technegydd Ymchwil
Paolo Rosario*



Cydymaith Ymchwil
Dr Shrinivas Dighe

*Cefnogir staff gan sawl cyllidwr

ABERTAWE



**Arweinydd Cyswllt
CIPHER**
Dr James Chess*

Ein Cenhadaeth:

Dod â budd i boblogaeth Cymru a thu hwnt, drwy ddarparu ymchwil cydweithredol, amlddisgyblaethol sydd yn ateb problemau pwysig o ran iechyd arennol a gofal cymdeithasol.

Ein Nodau strategol:

-Gwella'r seilwaith sydd yn cefnogi ymchwil arennol yng Nghymru.

-Cynnwys rhanddeiliaid (cleifion, teuluoedd a gofalwyr, comisiynwyr gwasanaeth, darparwyr gwasanaeth, yn ogystal ag ymchwilwyr) wrth gynllunio ac ymgymryd ag ymchwil, a lledaenu canfyddiadau a gwelliannau **dilydol mewn ymarfer**.

-Adeiladu portffolio o ymchwil a ariennir gan ddyfarniadau allanol ar bob cam o'r llwybr, o ymchwil sylfaenol i ddarparu gofal iechyd, gan arwain at **ymchwil ag iddi effaith**.

-Adeiladu portffolio o bartneriaethau gyda diwydiant mewn prosiectau ymchwil gan arwain at **newidiadau mewn gweithgaredd**.

-Cysylltu â'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o glefyd yr arennau, ei effeithiau clinigol a chymdeithasol, **a rhannu canlyniadau ein ymchwil**.

AELODAETH UYAC

Mae aelodaeth yr UYAC wedi ei lleoli mewn tair canolfan o amgylch Cymru: Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe /Prifysgol Abertawe

Gweinyddol

Kim Abberley

Bangor: Gofal Cymdeithasol

Emma Jones
Leah McLaughlin
Jane Noyes
Jamie Hugo-Macdonald

Abertawe

Owain Brooks
Christopher Brown
James Chess
Luke Davies

Caerdydd: Ymchwil Labordy a Chlinigol

Elijah Ablorsu
Mohammed Al-Talib
Argiris Asderakis
Jessica Baillie
Timothy Bowen
Rowan Casey
Esra Cetin
Rafael Chavez
Shrinivas Dighe
Matthias Eberl
Siân Griffin
Irina Grigorieva
Shivaram Hegde
Ian Humphreys
Simon Jones
Usman Khalid
Mario Labéta
Farah Latif
Soma Meran
Anne-Catherine Raby

James Redman
Steve Riley
Paolo Rosario
Shrea Roy
Dan Smith
Tanya Smith
Robert Steadman
Michael Stevens
Bnar Talabani
Phillip Taylor
Alexa Wonnacott
Aeliya Zaidi

Trefniadau Llywodraethu y Banc Meinwe


Timothy Bowen
Rafael Chavez
Donald Fraser
Bob Hall
Simon Jones
Usman Khalid
Leah McLaughlin
Soma Meran
Pam Parkhouse
Anne-Catherine Raby
Stephen Riley
Hywel Thomas

Grŵp Ffocws Cleifion

Mair Clarke
Lesley Cole
Muriel Coombs
Bob Hall
Jackie Holder
Gloria Owens*
Pam Parkhouse
Joanne Popham
Margaret Parry
Geraint John
Helen Williams
Janet Williams*

*Cynrychiolwyr cleifion yr UYAC





Pam Uned Ymchwil Arennol yng Nghymru?

Mae gan 15% o boblogaeth y DU Glefyd Cronig yr Arennau (CKD) ond ni fydd eu hanner yn ymwybodol o'u diagnosis ac felly nid ydynt yn cymryd mesurau i arafu'r datblygiad ac osgoi morbidrwydd i'r dyfodol. Mae Therapi Amnewid Arennol yn defnyddio 2% o gyllideb y GIG, neu £120

Miliwn y flwyddyn yng Nghymru. Felly mae angen i'r GIG yng Nghymru ddeall y pwysau ar y gwasanaeth a'r ffordd orau i gwrdd â hwy.

Mae UYAC yn helpu i gwrdd â'r heriau yma drwy ddarparu seilwaith craidd, galluogi cleifion, teuluoedd a gofalwyr, sefydliadau

trydydd sector, darparwyr gwasanaeth, comisiynwyr gwasanaeth, partneriaid yn y diwydiant, ac ymchwilwyr, i archwilio cwestiynau pwysig o ran iechyd arennol a gofal cymdeithasol, a datblygu gwasanaethau o'r radd flaenaf sydd o fudd i anghenion y boblogaeth.

Pwy sydd yn elwa o waith yr uned?

Cleifion a gofalwyr

Cynghori a chymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil i wella canlyniadau ar gyfer cleifion.

Cyfrannu at welliannau gwasanaeth ehangach o ran gofal yng Nghymru a thu hwnt.

Cymerwch ran, cysylltwch â ni

Mae UYAC yn gwahodd cleifion, gofalwr ac aelodau o'r cyhoedd i fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio, darparu a lledaenu ein gwybodaeth. Yn ein cyfarfodydd chwarterol **Bod yn Rhan o Gynllunio Ymchwil**, rydym yn trafod syniadau grant, gan ganolbwyntio ar un agwedd o glefyd yr arenau. Mae'r prosiect yn cael ei ddisgrifio mewn manylder mewn iaith leyg ac nid oes rhaid bod â gwybodaeth wyddonol. Rydym o'r farn ei bod hi'n hanfodol bod cleifion a gofalwyr yn goleuo ein syniadau ymchwil. Yng Nghaerdydd, rydym ni hefyd yn agor ein labordy yn rheolaidd i'r cyhoedd.

Am ragor o fanylion, ewch i:

<http://kidneyresearchunit.wales/en>
Gallwch hefyd wyllo fideo "WKRU: a day in the life" i weld yr hyn a wnawn.

I fod yn rhan o'n hymchwil danfonwch e-bost at colmontcs@cf.ac.uk neu wkru@bangor.ac.uk neu ffoniwch 02921848469.

Ymchwilwyr

Wedi eu cysylltu â rhanddeiliaid eraill, gan sicrhau y bydd eu cwestiynau ymchwil yn gwella sefyllfa cleifion arennol.

Gweithwyr Proffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Helpu i gyfeirio gweithgaredd ymchwil tuag at nodau ag iddynt effaith tu hwnt i ddatblygu gwybodaeth.

Comisiynwyr

Cysylltu â rhanddeiliaid eraill i ddatblygu agenda gofal iechyd ddarbodus.

Pwy sydd yn yr uned?

Mae gan Uned Ymchwil Arennol Cymru aelodau o bob Uned Arennol yng Nghymru.

Mae gan astudiaethau o ganlyniadau iechyd ar draws y boblogaeth y potensial i drawsnewid gwasanaeth y GIG, ac mae UYAC yn gweithio gyda Banc Data SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Dienw) yn Abertawe, sydd yn flaenllaw yn eu maes, i ddatblygu'r capasiti yma. Yn ychwanegol at ymchwil labordy a chlinigol a gynhelir yng Nghaerdydd, mae ymchwilwyr ym Mangor yn canolbwyntio ar agweddau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a lles cleifion arennol.

**Gwobr seilwaith
Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru i'r grŵp**



Cyllid
uniongyrchol
a ddyfarnwyd

£258,723

Swyddi a
grëwyd drwy
gyllid
uniongyrchol



Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

Grantiau a enillwyd	Dan arweiniad y grŵp	Grŵp yn cydweithio
Nifer	10	5
Gwerth	£1,135,189	£545,608
Cyllid i Gymru	£1,135,189	£300,383
Cyllid i grŵp	£1,089,829	£88,308
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru	5	2
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp	5	1



Nifer y cyhoeddiadau



Nifer y digwyddiadau
ymgysylltu â'r cyhoedd



Nifer y cyfleoedd i'r
cyhoedd gymryd rhan

Metrigau biobancio



Caniatâd



Ceisiadau
ymchwil



Ceisiadau
ymchwil
wedi'u
cymeradwyo



Samplau a
roddwyd i
brosiectau
ymchwil



Prosiectau
wnaeth
dderbyn
samplau



Cyhoeddiadau
gan
ddfnyddio
samplau

PECYNNAU GWAITH

Mae gweithgaredd UYAC wedi ei drefnu'n bum pecyn gwaith

Mae'r uwch-dîm yn cwrdd wyneb yn wyneb yn flynyddol yng Nghyfarfod Cyffredinol yr Uned ynghyd â chynrychiolwyr o'r holl grwpiau rhanddeiliaid a'r cyllidwr

Cyllid gan sefydliadau trydydd sector, comisiynwyr gwasanaeth, a darparwyr, partneriaid yn y diwydiant

Mewnbwn a chynllunio gan y cyhoedd a chleifion

Rolau cyfarwyddwr yr UYAC
Cysylltu â'r cyllidwyr ac adrodd yn ôl iddynt
Rheoli prosiectau a chyllid o ddydd i ddydd
Casglu a dosbarthu gwybodaeth bwysig am y rhwydwaith i bob un o'r rhanddeiliaid.
Mae'r Cyfarwyddwr a Rheolwr yr Uned yn adolygu pob gweithgaredd a materion gweithredol yn fisol
Mae'r Tîm Uwch-reolwyr (arweinyddion o Gaerdydd, Bangor ac Abertawe a Rheolwr yr Uned) yn cynnal telegynadledau i gynorthwyo'r Cyfarwyddwr

PG1. RHEOLI

Mae'r gwaith o reoli UYAC yn gadarn, yn ddemocrataidd, yn effeithiol ac ymatebol i gyfleoedd a heriau. Mae gweithgareddau yn cael eu goruchwyllo gan y tîm rheoli grantiau yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae UYAC yn adrodd iddynt yn chwarterol gydag adrodd ariannol ychwanegol yng nghanol y flwyddyn, ac adroddiad cynnydd blynyddol llawn.

PG2. SEILWAITH YMCHWIL

Mae ein hymchwilyr wedi eu lleoli yng ym Mhrifysgolion Caerdydd, Abertawe a Bangor ac yn y GIG gydag aelodau UYAC ym mhob uned dialysis yng Nghymru.

Yr Athro Siân Griffin yw Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymdeithas Drawsblannu a'r cyswllt gyda Phwyllgor Grantiau Ymchwil KRUK. Mae'r Athro Siân Griffin yn Ysgrifennydd Cyffredinol y *Transplantation Society*, arweinydd arbenigedd NIHR yng Nghymru, aelod o fwrdd gweithredol yr UK Organ

Donation and Transplantation Research Network a hefyd yn aelod o Bwyllgor Grantiau Ymchwil KRUK.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Kidney Research UK (KRUK), y prif ariannwr ar gyfer ymchwil arennol yn y DU. Mae Yr Athro Tim Bowen yn eistedd ar Bwyllgor Grantiau Ymchwil KRUK.

Mae UYAC yn sail i Fanc Meinwe Ymchwil Arennol Cymru, sydd yn darparu samplau gan gleifion wedi'u recriwtio'n lleol, yn genedlaethol a rhyngwladol.

BIOBANCIO

Mae Banc Meinwe Ymchwil Arennol Cymru (BMYAC) yn ystorfa o samplau a roddwyd gan gleifion a gwirfoddolwyr iach i'w defnyddio mewn astudiaethau sydd yn hyrwyddo'r gwaith o atal, deall a gofalu am glefydau'r arenau.

Beth yw banc meinwe?

Sefydliad yw hwn sydd yn casglu ac yn storio samplau biolegol (meinwe, gwaed, wrin ac


ati...) a data, fel eu bod ar gael i ymchwilwyr ddysgu mwy am sut mae afiechydon yn dechrau, yn datblygu a sut i'w trin. Mae BMYAC yn casglu samplau o'r fath ac yn cefnogi ymchwil i afiechydon yr arenau ac afiechydon perthynol drwy sicrhau bod samplau dienw ar gael i wyddonwyr sy'n ymwneud ag ymchwil o'r fath.

Pwy sydd yn adolygu'r banc meinwe?

Cyn i unrhyw waith a chasglu meinwe fedru dechrau, mae'r banc meinwe yn cyflwyno dogfennaeth i'w hadolygu gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil i sicrhau bod yr holl reolau a rheoliadau yn cael eu dilyn, yn enwedig rhai'r Awdurdod Meinwe Dynol. Mae'r holl brosesau yn cael eu hadolygu a'u hadnewyddu pob 5 mlynedd.

Sut mae'n cael ei reoleiddio?

Mae mynediad at feinwe ac unrhyw wybodaeth bersonol a allai fod yn gysylltiedig â hwy yn cael ei reoli'n llym. Rhaid i gais ffurfiol i ddefnyddio samplau a'r ymchwil arfaethedig gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Llywodraethu'r Banc Meinwe. Er mwyn cynnal ymchwil ar feinwe dynol, rhaid i ymchwilwyr gasglu gwybodaeth o gofnodion meddygol y cleifion a chofnodi manylion o brofion diagnostig. Mae pob gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n gyfrinachol a dienw. Mae pob gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n gyfrinachol ac yn ddiennw wrth i'r ffin gysylltu data gyda samplau, a dim ond data dienw sy'n cael ei ryddhau i ymchwilwyr.



Gweithgaredd 2023-24

Casglodd BMYAC 710 sampl. Roedd y samplau hynny yn rhai gwaed, serwm, plasma, Celloedd Gwaed Perifferol Ungnewyllol (PBMC yn Saesneg, sydd yn gelloedd gwaed gwyn), wrin, biopsïau o'r aren a hylif dialysis.

Beth sy'n digwydd i'r feinwe?

Mae llawer o bobl yn helpu i recriwtio cleifion a chasglu samplau, ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn y GIG. Mae samplau yn cael eu casglu yn ystod ymweliadau ysbyti rheolaidd ac maent naill ai'n cael eu prosesu a'u defnyddio'n syth neu eu storio ar dymheredd isel i'w rhyddhau'n ddiweddarach i ymchwilwyr.

Pa fath o ymchwil a gynhelir?

Mae llawer o wahanol fathau o ymchwil yn ddibynnol ar ddefnyddio meinweoedd dynol. Gellir eu defnyddio i ddatblygu profion newydd i helpu i wneud diagnosis o glefyd, neu gellir eu defnyddio i helpu i ddatblygu ffyrdd newydd o drin neu hyd yn oed wella clefydau. Gall peth o'r ymchwil arwain at gynnyrch meddygol newydd, megis profion diagnostig a chyffuriau, neu weithdrefnau newydd.

Un agwedd bwysig o waith bancio meinweoedd yw cynnal a chadw offer a diogelu samplau. Mae'r rhan fwyaf o samplau Banc Meinweoedd Ymchwil Arennol Cymru (WKRTB) yn cael eu storio mewn rhewgelloedd - 70°C. Ar hyn o bryd mae gan y WKRTB 8 rhewgell, gyda rhai ohonynt dros 20 mlwydd oed, sydd yn feichus i'w newid ac yn drwm ar ynni. Gan ystyried yr ynni a ddefnyddir a hefyd bod yn ymwybodol o ansawdd samplau a ryddheir ar gyfer ymchwil, mae'n bwysig

adolygu casgliadau a gwerthuso'u defnydd posib i'r dyfodol. Felly, o bryd i'w gilydd mae'n rhaid cael gwared ar samplau, wedi iddynt gael eu defnyddio'n eang a phan fônt wedi eu dihybyddu'n rhannol ac mae eu hansawdd yn dirywio gydag amser a chylchoedd rhewdadmer, ble mae meinwe yn diraddio wrth ddadmer. Yn 2023, tafliwyd rhai samplau o astudiaeth 21 mlynedd yn ôl. Mae hyn yn caniatáu creu lle i storio samplau newydd wrth i ymchwil a thechnoleg esblygu.



Tros y flwyddyn ddiwethaf, bu cynnydd yng ngweithgaredd WKRTB gan fabwysiadu astudiaethau newydd a chasglu samplau (crynodeb o weithgaredd WKRTB ar t7 a 9). I baratoi ar gyfer astudiaethau ac ymchwil pellach, cyflwynwyd sawl diwygiad, yn gofyn i gael casglu mathau newydd o samplau i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil, ac fe'i cymeradwywyd. Bydd hyn yn caniatáu i waith ychwanegol gael ei wneud, gyda phrosiectau mewn ymchwil trawsblannu a dialysis peritoneol.

I hysbysu cleifion sydd, yn hael iawn, wedi anrhegu samplau, cynhyrchodd UYAC gylchlythyr yn manylu ar waith ymchwil cyfredol, prosiectau sydd yn defnyddio samplau WKRTB ac sydd yn astudio dau feirws - cytomegalofirws (CMV) a firws BK. Mae'r ddau yn gyffredin iawn, ac efallai na fydd pobl heb drawsblaniad hyd yn oed yn gwybod eu bod wedi cael haint. Fodd bynnag, ar ôl trawsblaniad, mae'r cyffuriau sy'n atal gwrthodiad yn golygu y gall haint fod yn fwy difrifol.

Ms Rowan Casey

Rwy'n fyfyrwr PhD sydd newydd ddechrau fy mhrosiect yn edrych ar effeithiau maetholyn o'r enw arginin ar ein system imiwnedd. Mewn rhai cleifion haemodialysis a thrawsblaniad, mae lefelau arginin yn mynd yn hynod o isel, sydd yn ein barn ni yn golygu bod gan rannau o'u system imiwnedd ymatebion isel. Rwy'n profi hyn, ac a all atchwanegiadau adfer y system imiwnedd. Bydd hyn yn hybu ymatebion brechlynnau ac yn helpu i frwydro yn erbyn heintiau cronig. Rwy'n gweithio gyda samplau gwaed o dri grŵp cleifion, gan edrych ar CMV a pha mor dda y mae'r brechlyn Covid-19 yn gweithio. Erbyn diwedd fy mhrosiect, rydym yn gobeithio cael digon o dystiolaeth ar gyfer astudiaeth glinigol yn edrych ar effaith atchwanegiadau arginin.

Dr Mohammed Al-Talib

Rwy'n feddyg ac yn dechrau prosiect yn edrych ar firws BK. Rwy'n casglu a storio samplau gwaed ac wrin gan gleifion trawsblaniad aren o ddiwrnod eu trawsblaniad, ac yn rheolaidd dros 1 flwyddyn. Byddaf yn cymharu samplau rhwng pobl a wnaeth a rhai na wnaeth ddatblygu haint firws BK. Byddaf yn edrych am wahaniaethau mewn ymatebion y system imiwnedd yn erbyn y firws. Yn y pen draw, gallai'r gwaith hwn newid sut rydym yn monitro ac yn trin haint firws BK a'n helpu i ragweld pwy sydd mewn perygl o ddatblygu'r haint yn gynnar.



Edward, Lauren and Farah



Rowan and Mohammed

Dr Edward Wang and Dr Lauren Kerr-Jones

Un rhan o'r system imiwnedd sy'n bwysig wrth reoli CMV yw'r gell leiddiol naturiol neu gell NK. Rydym yn edrych ar y gwahanol fathau o feirws celloedd NK a CMV mewn cleifion sydd wedi derbyn trawsblaniad aren. Mae hyn i weld a yw gwahanol fathau o gelloedd NK a firws yn fwy tebygol o achosi haint gwaeth. Gobeithiwn y bydd y wybodaeth hon yn ein galluogi i ragweld pa gleifion a fydd neu na fydd yn cael clefyd CMV. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gwybod pwy fydd angen mwy o driniaeth a phwy fydd angen llai.

Dr Farah Latif

Rwy'n feddyg ac rwyf newydd orffen fy mhrosiect PhD. Ar ôl haint, nid yw CMV yn mynd i ffwrdd ond mae'n parhau i fod yn gudd. Yn ystod fy astudiaethau PhD ymchwiliais i sut mae CMV yn cael ei reoli gan bobl â thrawsblaniadau. Mae cytocinau yn negeswyr y system imiwnedd. Rwyf wedi edrych ar sut mae'r rhain yn atal y firws, a sut mae'r firws yn newid faint o cytocin sy'n cael ei gynhyrchu. Rwyf wedi dod o hyd i cytocin a all ragweld haint CMV a pha mor hir y mae'n ei gymryd i gleifion gael y firws dan reolaeth. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn helpu i ddatblygu triniaethau newydd.

PECYNNAU GWAITH

PG3. GWEITHGAREDD YMCHWIL: PRIF BWYNTIAU

Ateb Cwestiynau Ymchwil Arennol:

Anaf Acíwt i'r Arennau
Clefyd Cronig yn yr Arennau
Therapi Adfer Arennol
– Dialysis and Thrawsblannu
Gofal Cymdeithasol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu'r Uned yn rhan o 13 treial clinigol yn archwilio'r meysydd ymchwil hyn mewn partneriaeth

â'r Gyfarwyddiaeth Arenneg a Thrawsblaniadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a meysydd eraill o'r GIG ym Mangor a Lloegr. Mae labordy Caerdydd yn cefnogi 2 dreial ymyriadol a 12 arsylwadol, gyda 9 yn derbyn cefnogaeth labordy gyda phrosesu samplau. Recriwtiwyd 199 o gleifion i'r astudiaethau hynny tros y flwyddyn ddiwethaf.



Yn y Deyrnas Unedig, fel yn y rhan fwyaf o wledydd datblygedig eraill, mae'r galw am roi organau yn fwy na'r cyflenwad o organau, gan olygu bod llawer yn marw pob blwyddyn tra ar restr aros i dderbyn organ. Mae Lloegr wedi bod yn trafod ers peth amser a ddylent newid i system gydsynio optio allan fel modd i fynd i'r afael â'r mater. Gan ddilyn Cymru, a gyflwynodd bolisi optio allan 'meddal' i'w Wasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn 2015, pasiwyd bil yn Lloegr yn 2019 gan greu system gydsynio debyg. Ochr yn ochr â hyn, newidiodd rôl y teulu. Tra bo teuluoedd yn parhau i fod yn hanfodol i roi organau wedi i glaf farw, trwy ddarparu gwybodaeth i weithwyr proffesiynol gofal iechyd i gynnal diogelwch ac effeithiolrwydd organau i'w trawsblannu, nid y nhw bellach yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Yn hytrach, mae'n ofynnol ar i deuluoedd gefnogi'r penderfyniad rhoi organau a wnaeth eu perthynas pan oeddent yn fyw. Comisiynwyd Uned Ymchwil i Arloesi a Gwerthuso Polisi sydd wedi ei lleoli yn Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain gan NIHR i ymgymryd â gwerthusiad o'r broses o roi'r newidiadau ar waith, mewn partneriaeth ag aelodau UYAC, dan arweinyddiaeth Yr

Athro Jane Noyes a Dr Leah McLoughlin ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r gwaith bellach wedi ei gwblhau ac fe'i cyflwynwyd i'r Adran Iechyd ym mis Rhagfyr 2023. Bydd yr ymchwil yn cael ei ddefnyddio i ddiweddarau'r adnoddau a ddefnyddir gan nysys o ran gwybodaeth ac mae ar gael ar yn <http://www.healthtalk.org/> Y gobaith yw y bydd yn esgor ar newid mewn polisi ac arferion.

Mae pob pennod o'r adroddiad yn ffurfio erthygl ymchwil ac mae pob un bellach wedi eu cyflwyno i'w cyhoeddi.



Photos from Unsplash

Yr Her

Mae Clefyd Cronig yn yr Arennau (CKD) yn gyflwr dinistriol sydd yn cael effaith enfawr ar ansawdd a hyd bywyd. Y ffordd ddelfrydol o reoli methiant ar yr arennau yw drwy drawsblaniad aren, fodd bynnag, mae argaeledd organau ar gyfer trawsblaniadau yn gyfyngedig ac nid yw bob tro yn opsiwn triniaeth addas. O ganlyniad mae llawer o bobl sydd â methiant yr arenau yn dibynnu ar driniaethau dialysis sydd yn arbed bywyd. 'Hemodialysis' (HD) yw'r therapi a ddefnyddir amlaf yn y DU, ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n driniaeth sy'n digwydd 'mewn canolfan', naill ai mewn uned ysbyty neu uned ddialysis ategol.

Er bod HD yn driniaeth sy'n achub bywyd, mae pobl yn dal i brofi symptomau ymwithiol, cyfyngiadau ar eu bywydau pob dydd, ac yn sylfaenol mae eu bywydau wedi eu byrhau oherwydd y methiant yn yr arenau. Mae'r rhan fwyaf o driniaethau HD 'mewn canolfan' yn cael eu trefnu deirgwaith yr wythnos, o amgylch sesiynau pedair awr, gydag amser teithio ar y naill ochr. Mae tystiolaeth gynyddol bod cynyddu amser y driniaeth HD yn fuddiol o ran iechyd a llesiant cyffredinol. Yn anffodus, mae cynyddu amseroedd trin yn ystod y dydd wedi ei gyfyngu gan amserlenni ysbyty, a'r nifer fawr o bobl sydd angen HD.

Yr Ymchwil (Nodau ac Amcanion)

Mae 'HD nosol mewn canolfan' yn cyfeirio at driniaeth dros nos mewn ysbyty neu uned ddialysis ategol am gyfnod o chwech i wyth awr, deirgwaith yr wythnos, gan ddyblu bron â bod y HD yr wythnos. Mae derbyn HD dros nos

hefyd yn golygu bod y dydd yn rhydd ar gyfer pobl sydd â methiant ar yr arenau. Yr astudiaeth NightLife yw'r treial clinigol cyntaf ar draws y DU i gynnal archwiliad trwyadl o HD nosol mewn canolfan. Mae'r astudiaeth yma yn gofyn a yw chwe mis o ddialysis dros nos, a berfformir deirgwaith yr wythnos mewn ysbyty neu ganolfan ategol, yn gwella ansawdd bywyd cleifion sydd â methiant ar yr arenau, o'i gymharu â'r rhai sy'n cael sesiynau dialysis byrrach yn ystod y dydd

Y cynllun ymchwilio

Mae'r astudiaeth wedi ei hariannu gan Raglen Asesu Technoleg Iechyd Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal. Ers Ionawr 2020, bu'r astudiaeth yn recriwtio cleifion sy'n oedolion a fu ar HD am dros dri mis, o 18 uned ar draws Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon (DU). Bydd yn rhedeg tan Ragfyr 2024. Ysbyty Gwynedd yw'r ysbyty cyntaf yng Nghymru i gymryd rhan yn y treial, ble mae cleifion yn cael eu dewis ar hap i dderbyn naill ai: HD yn ystod y nos (gyda sesiynau yn para rhwng 6 ac 8 awr, yn y ganolfan, 3 gwaith yr wythnos), neu ofal safonol (dialysis yn ystod y dydd, gyda sesiynau yn para rhwng 3.5 a 5 awr, yn y ganolfan, 3 gwaith yr wythnos), am 6 mis. Bydd yr astudiaeth yn mesur ansawdd bywyd cleifion, profiad y claf, paramedrau clinigol megis canlyniadau gwaed a meddyginiaeth, a chost-efeithiolrwydd ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG).

Ceir rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth ar eu gwefan:

<https://nightlifestudy.co.uk/>



Yr Effaith

Yn Ysbyty Gwynedd, mae chwe claf (pum dyn, ac un fenyw), yn cymryd rhan ac eisoes yn teimlo'r buddion. Mae'r chwech nawr yn derbyn eu dialysis am wyth awr, deirgwaith yr wythnos yn ystod y nos, y hytrach na phedair awr, deirgwaith yr wythnos yn ystod y dydd. Mae pedwar claf hefyd yn derbyn dialysis yn ystod y dydd fel rhan o'r treial, sydd yn caniatáu i ymchwilwyr gymharu'r ddau grŵp. Dywed Dr Abdulfattah Alejmi, Arenegydd Ymgynghorol yn Ysbyty Gwynedd, bod dialysis yn ystod y nos hyd yn hyn, wedi rhoi gwell ymdeimlad o lesiant i gleifion, gyda mwy o amser ar gael iddynt yn ystod y dydd i gymdeithasu, gweithio a gofalu am eraill.

Daeth y claf Hajar Ghabari, 26, i fyw ym Mangor tua thair blynedd yn ôl wedi ffoi'r rhyfel yn Syria.

Cafodd ddiagnosis o glefyd yr arenau yn ei harddegau, ac mae hi bellach yn aros am ail drawsblaniad wedi i drawsblaniad blaenorol fethu. Ers ymuno â'r treial, dywed bod ansawdd ei bywyd wedi gwella'n aruthrol. "Pan rwyf yn derbyn fy nhriniaeth yn ystod y dydd rwy'n teimlo'n llawer mwy blinedig ac yn ddiodef o gur pen felly mae cael triniaeth yn ystod y nos pan rwyf yn cysgu wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol i mi. Mae gen i lawer mwy o ymwybyddiaeth nawr yn ystod y dydd, ac rwy'n gallu treulio amser gyda fy ffrindiau a theulu ac rwy'n teimlo'n llawer mwy egniol - rwy'n teimlo mod i wedi cael fy mywyd yn ôl," ychwanegodd.

Hefyd, mae sawl erthygl academaidd wedi eu cyhoeddi sydd eisoes wedi ennyn diddordeb ac ymchwil pellach yn y maes pwysig hwn. Darllenwch nhw [yma](#).

PWYSIGRWYDD YMGLYMIAD CYNYDDOL MEWN TREIALON CLINIGOL

Her

Yn hanesyddol, mae lefelau isel o ymgysylltu yng Nghymru gyda threalon rhyngwladol dros sawl canolfan wedi golygu mai mynediad cyfyngedig fu gan gleifion arenol i'r triniaethau arloesol ac nid ydynt wedi gallu cyfrannu at brofi a datblygu therapïau newydd.

Ymchwil

Mae ymdrechion ar y cyd gan dreialwyr mewn canolfannau gan gynnwys Caerdydd, Abertawe a Bangor wedi arwain at newid sylweddol mewn gweithgaredd treialon rhyngwladol sy'n cynnwys Canolfannau Cymreig.

Canlyniadau

Mae cleifion arenol o Gymru wedi cyfrannu at yr astudiaethau o'r effeithiau uchaf yn y maes, sydd wedi eu cyhoeddi mewn cyfnodolion blaenllaw gan gynnwys *The Lancet* a'r *New England Journal of Medicine*.

Effaith

Ymysg y treialon roedd treialon ar therapïau newydd sydd bellach wedi eu cyflwyno'n ymarferol, er enghraifft flosinau. Mae'r rhain yn lleihau risgiau i'r arenau a'r galon mewn cleifion arenol ledled y byd. Mae'r ffaith bod tимоedd clinigol o Gymru yn fwy cyfarwydd â chyffuriau newydd o ganlyniad i fwy o weithgaredd ym maes treialon wedi arwain at fabwysiadu cyflymach, gan gyflymu budd therapïau newydd effeithiol. Mae cyfranwyr

UYAC wedi cyfrannu ar nifer o'r treialon hynny, gan gynnwys, PROTECT, EMPA-KIDNEY, DAPA-CK5 a DUPLEX.

Mae ymchwilwyr o Gymru hefyd wedi cynorthwyo gyda datblygu canllawiau cenedlaethol, e.e. Canllawiau Ymarfer Clinigol UK Kidney Association: *Sodium-Glucose Co-transporter-2 (SGLT2) inhibition in adults with kidney disease 2023 update*, a gyhoeddwyd yn [BMC Nephrology](#).

Mae'r gymuned ymchwil ryngwladol yn cydnabod cyfranogiad Cymru yn yr ymdrechion rhyngwladol yma i wella gofal arenol, er enghraifft cadeiriodd Yr Athro Donald Fraser yr *American Society of Nephrology (ASN) 2023* yn Philadelphia, gydag amcangyfrif o 12,000 o gynrychiolwyr yno. Mae'r proffil uwch sydd gan Gymru yn ganlyniad i gyfraniad cleifion arenol o Gymru yn yr astudiaethau yma sy'n gwneud Cymru yn ddewis tebygol i'w chynnwys mewn astudiaethau i brofi therapïau newydd. Mae enghraifft o hyn i'w gweld ar y dudalen nesaf.



Fotograff gan y National Cancer Institute ar Unsplash

EFFAITH TREIALON CLINIGOL

Mae cydweithwyr UYAC yn cyfrannu at sawl treial clinigol. Un ohonynt yw *Avacopan for the Treatment of ANCA-associated vasculitis*

Yr Her

Mae Fasgiwlitis yn gyflwr awto-imiwn ble mae gwythiennau gwaed bychan yn troi'n lliidiog, gan beri niwed i organau. Mae'r arennau yn arbennig o agored i niwed. Ymhlith y triniaethau safonol mae cyffuriau i liniaru'r system imiwedd (Ritwocsimab neu cyclofosffamid fel rheol), ynghyd â steroidau. Mae sawl sgil-ffaith i steroidau, o acne, magu pwysau, tarfu ar dymer a diffyg cwsg, i ddiabetes, llid y stumog ac osteoporosis. Mae cleifion sydd angen triniaeth am gyfnodau hirach yn fwy tebygol o ddatblygu sgil-ffeithiau.

Yr Ymchwil (Nodau ac Amcanion)

Uned Arennol Caerdydd oedd un o'r canolfannau ledled y byd a recriwtiwyd i dreial clinigol yn astudio triniaethau amgen i steroidau, a elwir yn Afacopan. Cefnogodd labordy UYAC y gwaith o brosesu, storio a dosbarthu samplau gan gyfranogwyr y treial.

Canlyniadau

Roedd avacopan yn fwy effeithiol na steroidau - aeth cleifion i ysbaid yn gynt, gyda llai o sgil-ffeithiau a blwyddyn yn ddiweddarach roedd swyddogaeth yr arennau yn well. Mae'r canlyniadau wedi eu cyhoeddi mewn cyfnodolion meddygol blaenllaw, *New England Journal of Medicine* (*Avacopan for the Treatment of ANCA-Associated Vasculitis. Jayne DRW, Merkel PA, Schall TJ, Bekker P; ADVOCATE Study Group. N Engl J Med. 2021 Feb*) ac yn *The Lancet* (*The impact of treatment with avacopan on health-related quality of life in antineutrophil cytoplasmic antibody-associated vasculitis: a post-hoc analysis of data from the ADVOCATE trial. Vibeke Strand, David R W Jayne, Audra Horomanski, Huibin Yue, Pirow Bekker, Peter A Merkel; ADVOCATE Study Group. Lancet Rheumatol. 2023*).

Effaith

Mae Afacopan wedi ei werthuso gan Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) ac mae bellach ar gael ar gyfer cleifion. Mae Caerdydd yn cyfrannu at astudiaeth ddilynol sydd yn casglu gwybodaeth bellach am gleifion â fasgiwlitis.



Lluniau: Unsplash

PECYNNAU GWAITH

PG4. HYFFORDDI

Mae UYAC yn fwrwm o weithgaredd ar gyfer pobl ar bob cam o'u gyrfaoedd mewn ymchwil, a nod craidd yw hyfforddi cenedlaethau newydd o ymchwilwyr clinigol ac anghlinigol i ddatblygu gwybodaeth a gwella gofal i gleifion.

Eleni ymunodd un myfyriwr PhD amser llawn, pedwar myfyriwr meddygol (Cydran a Ddewisir gan y Myfyriwr) a dau fyfyriwr Blwyddyn Hyfforddiant Proffesiynol o'r Ysgol Biowyddorau â'r labordy yng Nghaerdydd, gyda phob un yn ymgymryd â phrosiectau labordy. Mae

gennym ni hefyd un myfyriwr sydd yn gwneud gwaith dadansoddi data ar gyfer gradd Meistr.

Gwelsom bedwar myfyriwr yn derbyn eu gradd PhD, gan gynnwys ymchwil ar lid mewn clefyd yr arenau, dyddodiad calsiwm mewn pibellau

gwaed, technegau ar gyfer gwella cadwraeth yr arenau cyn trawsblannu a niwed i bibellau gwaed yn dilyn llid mewn cleifion dialysis. Ar hyn o bryd mae dau o'r myfyrywyr yma yn parhau gyda'u hyfforddiant clinigol tra bo eraill yn dilyn gyrfau ym maes ymchwil.

Prifysgol Bangor

Mae ymchwilwyr UYAC yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Prifysgol Bangor yn darparu cyfle trwytho i Ymchwilydd Gyrfau Gynnar fod yn rhan o ddau brosiect. Mewn un prosiect maent yn cynhyrchu modiwl ar-lein ar gyfer *HealthTalk* ar roi organau dan y system optio allan newydd- y bas data o brofiad cleifion. Mae'r gwaith lledaenu yma yn ganlyniad uniongyrchol i'n gwerthusiadau diweddar o'r ddeddfwriaeth optio allan yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ail brosiect yn ddadansoddiad cychwynnol o gofnodion Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ynghylch pam bod cleifion yn dweud ieu neu na i roi organ pediatriig. Dyma'r astudiaeth gyntaf o'i math, ac rydym yn gobeithio y bydd yn arwain at astudiaeth fwy. Bu'r Athro Jane Noyes ym Mangor hefyd yn mentora nyrs arenol, sydd am gynnwys ymchwil cychwynnol, er mwyn cyflwyno Cais Cymrodoriaeth Uwch i sicrhau cyllid ar gyfer prosiect ymchwil llawn.

Mae **Dr. Shrinivas Dighe**, Cydymaith Ymchwil UYAC yng Nghaerdydd, wedi derbyn Cymrodoriaeth Gyswllt Academi Addysg Uwch y DU. Cymrodoriaeth Gyswllt yw'r categori priodol o gymrodoriaeth i unigolion a gydnabyddir yn broffesiynol o ystod eang o gefndiroedd gwahanol y mae eu haddysgu addysg uwch a/neu gymorth i ymarfer

dysgu wedi cyrraedd lefelau priodol ac effeithiol o wybodaeth graidd a gwerthoedd proffesiynol mewn addysgu a/neu gymorth dysgu. Nododd y panel:

"Mae hwn yn bortffolio diddorol sydd yn arddangos eich datblygiad a'ch twf fel addysgwyr ers ichi ymgysylltu â Rhaglen Addysg Uwch y DU. Rydych yn arddangos

Hefyd yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Prifysgol Bangor, mae Dr Leah McLaughlin yn aelod o bwyllgor llywio myfyrywyr PhD a grŵp cynghori arbenigol ym Mhrifysgol y Frenhines, Belfast. Dywed myfyriwr PhD Megan Cairns: *"Rydw i'n fyfyrwraig PhD yn fy mlwyddyn gyntaf yn Ysgol Nyrsio a Bydwreigiaeth Prifysgol y Frenhines, Belfast. Fy ngoruchwylwyr yw Dr Clare McKeaveney a'r Athro Helen Noble. Rydw i hefyd yn glaf arenol ac wedi derbyn trawsblaniad aren. Ar hyn o bryd rwy'n gweithio ar brosiect ymchwil sy'n ceisio gwella ymwybyddiaeth o iechyd rhywiol a lleihau stigma materion iechyd rhywiol mewn gofal iechyd arenol. Teitl fy mhrosiect yw Deall sut i wella ymwybyddiaeth ynghylch iechyd rhywiol a lleihau stigma materion iechyd rhywiol ar gyfer cleifion clefyd cronig yn yr arenau, eu partneriaid a gweithwyr proffesiynol gofal arenol."*


ymarfer addysgu effeithiol gan ddefnyddio ystod eang o ddulliau addysgegol, yn dangos dealltwriaeth o ystod o lenyddiaeth briodol, a thystiolaeth o ymrwymiad i gynnwys gwerthoedd proffesiynol fel y nodir yn Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU. Da iawn chi."

PECYNNAU GWAITH



Urgent NEED

- Prepare Europe for increasing demands for dialysis by fostering the training of ESRs in PD
- Tackle limitations and underuse of PD by providing research-based new concepts
- Individualised approach to address high CVD risk in PD including gender differences
- Improve outcome for the PD patient at risk



Unique OPPORTUNITY

- New generation of outstanding researchers balanced in gender
- Timely identification of the PD patient at risk for CV events
- Innovative PD fluids for individualised reduction of risk of complications
- Strong intersectoral cooperative pipeline to improve PD therapy (bench-to-bedside)



RHAGLEN PHD IMPROVE-PD

Mae dialysis peritoneol (PD) yn driniaeth sy'n achub bywyd ar gyfer cleifion clefyd yr arennau camau terfynol o bob oed. Er bod PD yn cynnig buddion dros hemodialysis (HD), mae'r ddwy driniaeth yn cyflymu problemau clefyd fasnwlaid a chardiofasgwlaidd o'i gymau â chleifion cyn-dialysis. Mewn cleifion PD, mae yna risg uchel o glefyd cardiofasgwlaidd a achosir gan lid, ble mae cysylltiad uchel â marwolaeth.

Gall deall y mecanweithiau moleciwlaidd sy'n chwarae eu rhan mewn lliid cysylltiedig â PD a'i gysylltiad â chanlyniadau cardiofasgwlaidd fod o gymorth i ddylunio ymyriadau i leihau'r risgiau hyn.

Daeth consortiwm IMPROVE-PD ag ymchwilwyr ynghyd i ddeall clefyd cardiofasgwlaidd a achosir gan lid mewn cleifion PD, datblygu dulliau adnabod risg personol, a phrofi therapiau newydd. Yn rhan o'r rhaglen yma mae 15 o wyddonwyr ifanc ar draws 11 sefydliad mewn 7 gwlad mewn rhaglen hyfforddiant PhD yn Ewrop. Croesawodd UYAC ddau wyddonydd, Esra Cetin a Shrea Roy, a fu'n ymchwilio i lwybrau afiechyd a dyddodi calsiwm mewn pibellau gwaed.

Amlygodd brosiect Esra lwybrau niwed penodol sy'n cyfrannu at lid mewn pibellau gwaed a rhwystr mewn CKD gan gynnig dulliau therapiwtig i leihau'r problemau hyn. Dangosodd y gwaith ymchwil a wnaeth Shrea ar Hyalwronan, sef carbohydrad mawr sydd i'w ganfod ym mhob meinwe, ei botensial o ran amddiffyn yn erbyn niwed i bibellau gwaed drwy ddadorchuddio mecanweithiau penodol yn ystod datblygiad niwed i bibellau.

Yn 2023, dyfarnwyd PhD i Esra a Shrea am eu gwaith. Mae Esra bellach yn dilyn gwaith fel cymrawd ôl-ddoethurol gyda'i goruchwyliwr PhD, Dr Anne-Catherine Raby, tra bod Shrea wedi ymgymryd â swydd ôl-ddoethurol ym Mhrifysgol Purdue, USA.

Shrea Roy: Rheoliad-hyalwronan (HA) ffenoteip cell cyhyrau llyfn fasgwlaidd a chalcheiddiad fasgwlaidd mewn CKD



Esra Cetin: Mecanweithiau Niwed Fasgwlaidd yn dilyn Peritonitis Bacterol mewn Cleifion Dialysis Peritoneol



PECYNNAU GWAITH

PG4. HYFFORDDI

Yn UYAC, rydym yn annog pobl nad ydynt yn wyddonwyr i ymgymryd â phrosiectau ymchwil. Mae Emma Jones yn nys o Ogledd Cymru a ddechreuodd PhD yn Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd, Prifysgol Bangor, i geisio ateb y question canlynol:



Rhagymadrodd

Ystyrir mai trawsblaniad aren yw'r therapi amnewid aren 'gorau' ar gyfer pobl sydd â CKD camau terfynol, gan wella ansawdd bywyd, pan fo'n llwyddiannus yn darparu rhyddid oddi wrth ddialysis, a lleihau cymhlethdodau cydafiachedd sy'n gysylltiedig â bod ar ddialysis. Fodd bynnag, ychydig a wyddom am y rhesymau pam bod pobl sydd â chlefyd yr arenau yn gwrthod trawsblaniad aren pan maent fel arall yn feddygol addas. Y nod oedd datblygu dealltwriaeth fanwl o brofiadau bywyd pobl sydd yn byw gyda chlefyd yr arenau, eu profiadau o wneud penderfyniadau a'r rhesymau a arweiniodd at wrthod trawsblaniad aren.



Rydym yn cynnal astudiaeth i ddeall pam mae pobl yn dweud 'na' i drawsblaniad aren?

Mae gennym ddi-ddordeb mewn clywed mwy amdanoch chi, eich barn, agweddau, a phrofiadau a arweiniodd at eich penderfyniad ddim i gael trawsblaniad aren.

Pwy all gymryd rhan?

- Hoffem glywed gan unrhyw un sydd wedi penderfynu nad ydynt eisiau trawsblaniad aren
- Oedolion dros 18 oed sydd wedi dewis peidio â chael trawsblaniad aren

Beth mae'r astudiaeth yn ei gynnwys?

- ☐ Cymryd rhan mewn cyfweiliad unigol a fydd yn cymryd tua 60 munud, gellir cynnal y cyfweiliad yn eich cartref, yn eich adran uned arenol leol neu dros y ffôn neu drwy fideo os byddai'n well gennych.
- ☐ Rhannu eich profiadau, safbwyntiau ac agweddau i'n helpu i ddeall pam mae rhai pobl yn gwrthod trawsblaniad aren

I gael gwybod mwy am yr astudiaeth hon cysylltwch ag Emma Jones myfyrwraig PhD, Prifysgol Bangor ar y manylion cyswllt isod

☎ 07522627230

✉ mmj20cpp@bangor.ac.uk



Version 2 Date 06/05/2022 IRAS Number 313751

Study Title: Why do people say "no" to a kidney transplant? Understanding patient decision making and choice. A constructivist grounded theory study.

Hysbyseb yr astudiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda sefydliadau partner ac ar wefan UYAC

Dulliau

Recriwtiwyd trideg o bobl o chwe uned areneg ranbarthol o fewn y DU a thrwy hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasol y rhwydwaith arenol. Roedd unigolion yn gymwys os oeddent wedi gwrthod trawsblaniad aren tra roeddent fel arall yn feddygol addas i dderbyn un. Cafodd y cyfweiliadau eu recordio, eu trawsgrifio a'u dadansoddi.

Issue One Hundred and Four | February 2023

In Touch

Information from the National Kidney Federation. Supporting kidney patients, their friends & family.

Action Point

- 02 The NKF Webinar Series Continues in 2023 with the Patient Knows Best App
- 02 KPA Day - Registration Now Open
- 03 NKF Parliamentary Reception Wednesday 8th March 2023
- 03 NKF Annual Patients' Event to Return this September
- 04 KPA of the Month - North Staffs and South Cheshire Kidney Patients' Association (NSSCKPA)
- 05 NKF Home Dialysis Peer Support Service
- 05 Keeping An Eye on Renal Research
- 06 Dorset Kidney Patient Association Social Event

News

- 07 Home Dialysis Reimbursement Calculator
- 07 World Kidney Day

Patient Participation Opportunities

- 08 Why Do People Say 'No' to a Kidney Transplant?

NKF Helpline

- 09 Focal and Segmental Glomerulosclerosis (FSGS)
- 10 Know Your Benefits with the NKF Benefits Pack

NKF Fundraising

- 10 Fundraising Events
- 11 NKF Spring Draw Now Open
- 11 Create a Tea and Coffee Fundraiser this World Kidney Day
- 12 Join the NKF Team as a Volunteer
- 12 AmazonSmile to Discontinue from Monday 20th February 2023
- 12 Taster! Healthy Eating for a Modern Lifestyle
- 13 NKF KPA Members

Is there something you would like to share in the next newsletter? Email sharney@kidney.org.uk by Monday 6th March 2023.

Canfyddiadau


Cynhaliodd Emma 30 cyfweiliad (11 menyw, 19 dyn, rhwng 34 ac 83 mlwydd oed), gan gynnwys yr holl foddau amnewid aren (Pobl nad ydynt ar ddialysis CKD cam 4 a 5, HD mewn canolfan ac uned ategol, HD yn y cartref, HD Cartref yn ystod y nos, Dialysis Peritoneol Symudol Parhaus, Dialysis Peritoneol Awtomataidd, roedd 3 o'r cyfranogwyr eisoes wedi derbyn trawsblaniad)

Mae pobl wedi ffurfio dealltwriaethau cymdeithasol o'r hyn y maen nhw'n ei ystyried i fod yn driniaeth amnewid aren gorau ar eu cyfer hwy. Roedd canfyddiadau negyddol a syniadau rhagdybiedig ynghylch trawsblaniadau aren, waeth beth yw eu hoed, rhyw, neu fath o driniaeth yn dylanwadu ar eu penderfyniadau. Roedd llawer yn credu y byddent yn waeth eu byd ac yn cymryd y byddai trawsblaniad yn methu. Roedd y cleifion hyn yn aml yn teimlo eu bod yn rhy hen ar gyfer trawsblaniad ac yn credu y byddai pobl iau yn elwa mwy.

Roedd pobl gyda CKD cam 4 a 5, oedd yn teimlo'n iach heb unrhyw symptomau, yn gyndyn o wneud penderfyniadau. Roedd y bobl hynny oedd wedi addasu i ddialysis ac yn byw bywyd normal, gan weld eraill yn byw bywydau hir ar ddialysis, yn ei chael yn galonogol a llai beichus o'i gymharu ag ansicrwydd trawsblaniad. Roedd profiadau negyddol ac ofn ysbytai yn effeithio ar lesiant cyfranogwyr a'r modd roeddent yn gwneud penderfyniadau. Yn ystod COVID, roedd y bobl hynny oedd â chlefyd yr arennau cam terfynol neu oedd wedi dechrau dialysis yn teimlo'n ddigymorth neu heb eu paratoi i wneud penderfyniadau trawsblannu. Roedd pobl yn teimlo pwysau i ystyried trawsblaniadau arennau byw. Roedd tri chyfranogwr wedi bod ar restr aros am drawsblaniad ond wedi gwrthod aren oedd yn cael ei rhoi oherwydd amseru anghyfleus neu eu bod am i'r aren fynd i rywun arall. Roedd y rhai hynny oedd wedi tynnu eu hunain oddi ar y rhestr aros am drawsblaniad yn adrodd eu bod yn teimlo rhyddhad.

Trafodaeth

Mae'r astudiaeth hon ymhlith y gyntaf i archwilio'r rhesymau dros wrthod trawsblaniad aren. Roedd dehongliadau cymdeithasol pobl o beth oedd y 'driniaeth orau' ar eu cyfer yn aml yn gwrthdaro gydag argymhellion ymarfer clinigol oedd yn anelu at gynyddu niferoedd trawsblannu i wella canlyniadau. Mae deall safbwyntiau pobl yn hanfodol wrth ddatblygu polisiâu i'r dyfodol yn seiliedig ar wneud penderfyniadau gwell ar y cyd.



Trafodwyd ac adroddwyd ar fethodoleg a chanfyddiadau'r astudiaeth mewn sawl digwyddiad a chynhadledd, gan gynnwys Wythnos Aren y DU 2023, Cyfarfod Blynyddol UYAC a Chymdeithas Ewropeaidd Nyrsys Dialysis a Thrawsblannu/Cymdeithas Ewropeaidd Gofal Arenol (EDTNA/ ERCA) 2023.



Gyda Aren Cymru yn UKKW 2023

Mae'r gwaith yma wedi arwain at un Cyhoeddiad hyd yn hyn: *Qualitative Evidence Synthesis* a gyhoeddwyd yn y [BMJ Open](#).

WORK PACKAGES

WP4. TRAINING



Roedd Anna Gaspar, myfyrwraig feddygol israddedig, yn fyfyrwr Gradd Meistr am gyfnod byr yn 2023-24 ac fe ymgwymerodd â phrosiect ymchwil, dan nawdd Ysgoloriaeth B.D. Williams, yn defnyddio samplau a gasglwyd ym Manc Meinwe Ymchwil Aren Cymru i wneud dadansoddiad penodol yn ymwneud â COVID19 a brechu mewn cleifion arenol.

RÔL METABOLAETH ARGINAS AR YMATEBION CELLOEDD T I FRECHIAD COVID MEWN CLEIFION ARENNOL SYDD AG IMIWNEDD GWAN

Cefndir

Yn aml mae CKD yn achosi swyddogaeth wael yn y system imiwnedd, gan wneud cleifion yn fwy agored i heintiau, cyfnodau yn yr ysbyty, a mwy o risgiau iechyd cyffredinol. Nid oes llawer o ddealltwriaeth o'r mecanweithiau sy'n achosi'r problemau imiwnedd yma mewn CKD. Mae un damcaniaeth yn awgrymu bod CKD yn arwain at fwy o ddadelfeniad asid amino a elwir yn L-arginin gan yr ensym arginas 1, gan achosi diffyg mewn L-arginin. Gall y diffyg yma effeithio ar luosogiad ac actifadu celloedd imiwnedd penodol. Nod yr astudiaeth yma oedd archwilio sut mae lefelau arginas 1 yn y gwaed yn effeithio ar ymateb imiwnedd i'r protein pigyn SARS-CoV-2.

Dulliau

Darparodd gleifion ar HD samplau gwaed pob yn dri mis tros gyfnod o flwyddyn. Buom yn mesur eu lefelau arginas 1 serwm, ymatebion imiwnedd i'r pigyn protein-benodol SARS-CoV2, a gwrthgyrff gwrth-SARS-CoV2

Mae Anna yn egluro: "Fe wnes i'r prosiect yma fel rhan o fy nhraethawd estynedig ar gyfer fy ngradd Meistr mewn Imiwnedd o fis Mehefin i fis Medi. Dim ond 10 wythnos dreuliais i yn y labordai, felly roedd hwn yn brosiect cymharol fach, ond rydym yn gobeithio parhau, ac mae fy ngwaith wedi darparu rhywfaint o ddata cychwynnol ac rydym yn gobeithio adeiladu arno mewn prosiectau i ddod."

Canlyniadau

Gwelwyd bod dau grŵp o fewn ein carfan o gleifion: y rhai hynny gyda lefelau arginas 1 cyson uchel neu isel. Roedd lefelau arginas 1 uchel yn gysylltiedig ag ymateb imiwnedd ag iddo amhariad sylweddol i'r pigyn protein SARS-CoV-2. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o gleifion (85%), waeth beth oedd eu lefelau o arginas 1, yn gallu cynhyrchu ymateb gwrthgorff wedi dau ddos o'r brechlyn.


Casgliad

Mae lefelau uchel o arginas 1 yn gysylltiedig â llai o ymateb imiwnedd. Mae angen ymchwiliad pellach i ddeall y rhesymau tu ôl i'r amrywiad yma mewn lefelau arginas 1 a bydd angen ei gadarnhau mewn astudiaethau pellach. Fodd bynnag, hyd yn hyn, mae ein canfyddiadau yn awgrymu y gallai ychwanegu at lefelau L-arginin wella ymatebion imiwnedd mewn cleifion sydd ag afiechyd arenol camau terfynol.

PECYNNAU GWAITH

PG5. LLEDAENU GWYBODAETH AC YMGYSYLLTU

Nod UYAC yw lledaenu ei waith i gleifion a'r cyhoedd i wella cyfathrebu a chydweithio rhwng ymchwilwyr a darparwyr gwasanaeth er mwyn cydgysylltu ymchwil a darpariaeth i gleifion



THE BIG TOPIC
EVERYONE'S IGNORING

#KIDNEYSMATTER

DDIWRNOD AREN Y BYD 2024

Ar gyfer **Diwrnod Aren y Byd (WKD) 2024**, cododd UYAC ymwybyddiaeth ynghylch lechyd yr Arennau i Bawb drwy bostiadau a negeseuon cyfryngau cymdeithasol o ddeunydd hyrwyddo gan y pwyllgor llywio rhyngwladol: "lechyd yr Arennau i Bawb: Hyrwyddo mynediad teg i ofal a'r arferion meddyginiaeth gorau posib". Cymerodd UYAC ran yn ymgyrch #showyourkidney gan gefnogi negeseuon elusennau lleol: Aren Cymru a Popham Kidney Support. Yng Nghaerdydd, cododd UYAC ymwybyddiaeth a hyrwyddo ymchwil yr arenau i'r cyhoedd a chleifion yn Ysbyty'r Mynydd Bychan.



GWYDDONIAETH YM MAES IECHYD 2024



Ym mis Mawrth 2024 ymunodd UYAC â 9 grŵp arall o Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd ar gyfer y digwyddiad blynyddol Gwyddoniaeth ym Maes Iechyd. Mae'r digwyddiad yn caniatáu i ddisgyblion Blwyddyn 12 ac 13 o ysgolion uwchradd o bob cwr o Gymru ymweld â labordai a grwpiau clinigol o fewn yr Ysgol Meddygaeth a dysgu am yr ymchwil arloesol sy'n digwydd yno. Mynychodd tua 400 o ddisgyblion y digwyddiad o dros 30 o ysgolion a cholegau ledled Cymru a De-orllewin Lloegr. Ar daith o amgylch labordai UYAC gwelodd y myfyrwyr amrywiaeth o dechnegau a ddefnyddir i archwilio achosion a mecanweithiau clefyd yr arenau.

CYFRANNU AT GYNLLUNIO YMCHWIL

Cyflwynodd sawl ymchwilydd eu prosiectau i grwpiau o gleifion sy'n aelodau o'r Popham Foundation, i roi cyfleoedd iddynt fod yn rhan o ymchwil UYAC. Mynychodd ymchwilwyr gyfarfod misol Goruchwylio Mentoriaid Cymheiriaid Popham i drafod

rhywfaint o'u hymchwil parhaus. Mae'n bosib bod cleifion yn ofni cymryd rhan mewn ymchwil ac mae'r trafodaethau hynny yn caniatáu i bobl ymgynefino a theimlo'n gyfforddus i roi eu barn.

Adborth gan gleifion arenau ar ôl clywed am brosiectau ymchwil ym maes trawsblaniadau aren:

"Mae cael pobl broffesiynol yn cyflwyno eu hymchwil yn anhygoel". "unrhyw beth y gellir ei wneud i osgoi biopsi." "Dim ond trwy ymchwil y gellir gwneud y newidiadau hynny." Shaun

"Mae'r hyn sy'n digwydd yn y cefndir yn ddiddorol iawn." Mair



"Mae'n ymddangos bod hwn yn brosiect gwerth chweil sy'n anelu at wella canlyniadau o drawsblaniadau ac edrych ar elfennau penodol o'r broses sy'n achosi problemau felly rwy'n dymuno pob llwyddiant iddyn nhw ac yn gobeithio y byddan nhw'n cael popeth maen nhw ei angen, boed hynny'n ariannol neu'n adnoddau digonol i barhau." Bob

GWEITHGAREDD Y PWYLLGOR RHODDION

O ganlyniad i waith allgymorth UYAC a gweithgareddau lledaenu cyffredinol, mae'r Uned yn derbyn rhoddion rheolaidd i gynnal ymchwil. I reoli'r gronfa hon, rydym wedi creu pwyllgor llywodraethu penodol sydd yn cynnwys prif archwilwyr UYAC a

dau gynrychiolydd lleyg, gyda'r nod o gefnogi ymchwilwyr gyrfa gynnar. Mae'r pwyllgor wedi cwrdd ddwywaith yn 2023-24 i drafod prosiectau ymchwil gan ymgeiswyr ôl-ddoethurol. Derbyniodd y pwyllgor 4 cais ac ariannu 4 i gyfanswm o £36,242. Roedd y cyllid a geiswyd i ddatblygu modelau penodol a chasglu data rhagarweiniol sydd i'w defnyddio tuag at geisiadau grant.

DIGWYDDIAD CYNNWYS CLEIFION A'R CYHOEDD I DDATBLYGU OFFERYN GWNEUD PENDERFYNIADAU AR Y CYD AR GYFER MENYWOD SYDD Â CHLEFYD CRONIG YN YR ARENNAU

The screenshot shows a Zoom meeting interface. The main content is a presentation slide with the following text:

Where we are now
“Women don’t know what they don’t know”

Women need high quality shared decision-making interventions embedded as routine in a feminised care pathway that includes reproductive health. Research is needed in parallel to examine the effectiveness of interventions and address inequalities.

ADAPT

Adapting interventions to new contexts—the ADAPT guidance www.bmj.com/content/374/bmj.n1679

MyVoice^{CF}
A reproductive health tool for women with CF

BEFORE
Begin Exploring Fertility Options, Risks & Expectations

LEICESTER KIDNEY LIFESTYLE TEAM

<https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/37833123/> <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/31660965/> <https://www.leicesterkidneylifestyle.team/my-kidneys-me-resources>

On the right side of the screen, there is a vertical stack of video feeds for participants: Hall Matthew (Renal), Nadia, Jane Noyes (Staff), Leah McLaughlin (Staff), Deborah Duvall, and Clare McKeowney. At the bottom right, there are icons for HW (Helen W...) and MS (María S...).

Mae Tîm *Kidney Lifestyle* Prifysgol Caerlŷr wedi datblygu gwefan: *My Kidneys & Me* (<https://www.leicesterkidneylifestyle.team/my-kidneys-me-resources>), i helpu cleifion arenau i reoli eu cyflwr.

Mae ymchwilydd UYAC, Yr Athro Jane Noyes a Dr Leah McLaughlin yn cydweithio gyda Tîm *Kidney Lifestyle* Prifysgol Caerlŷr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddatblygu offeryn gwneud penderfyniadau ar y cyd ar gyfer menywod gyda CKD, sydd i'w gynnwys ar wefan *My Kidneys & Me*.

Cynhaliodd y tîm ymchwil gyfarfod Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (CCC) hybrid ym mis Mawrth 2024 i gasglu barn ac argymhellion gan gleifion, clinigwyr, ac ymchwilydd iechyd i ddatblygu offeryn newydd. Ymysg y cyfranogwyr roedd menywod gyda CKD, sefydliadau arenau, grwpiau cefnogi cleifion, a gweithwyr iechyd proffesiynol er enghraifft obstetryddion ac arbenigwyr arenol. Roedd 26 o gyfranogwyr (6 o bell) yn y cyfarfod, gyda 9 ohonynt yn gleifion (3 menyw) ac 17 gweithiwr proffesiynol. Rhannwyd y cyfarfod yn ddau sesiwn: un

gyda'r ymchwilydd a'r fîm datblygu, a'r llall gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, y cyhoedd, a chleifion. Cadeiriodd Dr Leah McLaughlin y sesiynau, gyda'r Athro Jane Noyes yn cydgordio'r adborth ar-lein. Roedd y trefniant yma yn caniatáu casglu adborth manwl a pherthnasol am yr offeryn.

Cyflwynwyd gwahanol agweddau ar yr offeryn i amlygu ei ddyluniad, cynnwys, a'i ddefnydd. Cafwyd yr un cyflwyniad yn y ddau sesiwn ond gan gasglu mewnwelediadau unigryw o brofiad pob grŵp. Roedd y cyflwyniadau yn galluogi cyd-ddatblygu i asesu effeithiolrwydd yr offeryn wrth helpu menywod sydd â CKD i wneud penderfyniadau.

Gwellodd y digwyddiad CCC ddealltwriaeth o wneud penderfyniadau ar y cyd i fenywod yn trafod beichiogrwydd, cynllunio teulu, geni, ac opsiynau rhianta, gyda'u tîm gofal arenol. Bydd yr argymhellion a phrofiadau yn cael eu integreiddio i'r offeryn, gan oleuo ei ddatblygiad, podlediad fideo, profion defnyddwyr, a lledaenu.

CYFARFOD AELODAU O DÎM YR UYAC

Dr Leah McLaughlin



Yn 2022, dyfarnwyd 2 flynedd o gyllid ychwanegol i UYAC ar gyfer 2023-25 gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae 50% o rôl Leah wedi ei gyllido gan y wobwr yma fel ymchwilydd gyrfa gynnar sydd yn arwain portffolio o astudiaethau ansoddol ac

Ymchwil Gwasanaethau Iechyd yn UYAC. Mae'n arwain ar adeiladu capasiti a medrusrwydd mewn (i) cyfraniad Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd i ymchwil labordy, ac ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ymwneud â'r arenau, (ii) gweithgareddau allgymorth gyda phwyslais ar drosi deilliannau ymchwil yn ymarfer clinigol a dealltwriaeth o wyddoniaeth. Hefyd, hi yw'r prif gyswllt o ran datblygu capasiti a medrusrwydd mewn ymchwil gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a datblygu gwaith yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys integreiddio gyda, a chefnogi'r ysgol feddygol newydd ym Mhrifysgol Bangor.

Yn ddiweddar dechreuodd weithio gyda chydweithwyr i

archwilio Ymyriadau, gan ddarparu gwybodaeth ac addysg CKD: mapio tystiolaeth, adolygiadau systematig o effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd, a synthesis realaidd o'r hyn sy'n gweithio i bwy, pryd a than ba amgylchiadau. Dan arweiniad cydweithwyr yng Nghaerlŷr, mae hwn yn dîm cenedlaethol o archwilwyr. Derbyniwyd Leah i raglen Crwsibl Cymru 2024. Mae Crwsibl Cymru yn rhaglen datblygu personol, proffesiynol a sgiliau arwain o fri ar gyfer arweinwyr ymchwil y dyfodol yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn hwyluso ac yn hyrwyddo arloesedd a ysbrydolir gan ymchwil yn ogystal â chydweithio rhyngddisgyblaethol yng Nghymru.

Yr Athro Jamie Hugo MacDonald

Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon, Coleg Meddygaeth ac Iechyd, Prifysgol Bangor. Rwy'n dysgu ac yn cwblhau ymchwil a gweithgareddau effaith mewn dau faes penodol: i) gweithgaredd corfforol i atal a thrin afiechydon cronig; a ii) sut i wella iechyd a pherfformiad mewn amgylcheddau uchder uchel.

Mae fy nghydweithio clinigol yn cynnwys cefnogi'r uned arenol yn Ysbyty Gwynedd i gwblhau astudiaethau ymchwil a gweithgareddau gwella gwasanaeth. Un enghraifft fyddai cynnwys ein huned fel safle recriwtio ar y treial *Nightlife*, yr astudiaeth a ariennir gan NHR ar ddialysis

yn ystod y nos: <https://nightlifestudy.co.uk/>. Rwy'n credu mai ni yw'r cyntaf a'r unig rai yng Nghymru i fod yn rhan o'r treial yma (disgrifiad llawn ar t12-13).

Rydw i hefyd yn rhan o Grŵp Llesiant Gweithwyr Proffesiynol Rhwydwaith Clinigol Arenol Cymru, gan ddarparu cyngor ar weithgaredd corfforol a chefnogaeth ymchwil.

Rydym yn goruchwyllo tri doctor meddygol Blwyddyn Sylfaen 2 y flwyddyn i gwblhau graddau Meistr Ymchwil, gyda'r rhan fwyaf ohonynt mewn CKD. Rydym hefyd yn goruchwyllo un myfyriwr PhD sydd wrthi'n ysgrifennu ei ymchwil. Mae'n Gofrestrydd Arbenigol ac yn ddiweddar wedi ymgymryd â swydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru,

Caerdydd fel Arenegydd.

Yn olaf, rydym yn annog cleifion CKD ymuno â Chynllun Cenedlaethol Cymru i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, drwy fy rôl fel arweinydd Bangor o fewn Sefydliad Gweithgaredd Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru.



CYNADLEDDAU

Mae gwaith yr UYAC wedi ei ledaenu mewn nifer o ddigwyddiadau a chynadleddau, yn lleol ac o amgylch y byd.

Mae cydweithredwyr UYAC, gwyddonwyr academiaidd a chlinigwyr ar bob lefel o'u gyrfau neu addysg yn mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau a chynadleddau i ledaenu canlyniadau eu hymchwil, cyflwyno syniadau ymchwil newydd a thrafod gyda chyfoedion, cleifion a'r cyhoedd.




Cynhaliwyd 14^{eg} Cynhadledd yr *International Society for Hyaluronan Sciences* (<https://ishas.org/>) rhwng 4^{ydd} a'r 8^{fed} Mehefin, 2023 yn Portland, Oregon, UDA. Mae aelodau UYAC wedi bod yn ganolog iddo ac wedi cyflwyno yn y gynhadledd ers ei ddechreuad 20 mlynedd yn ôl. Eleni, bu'r Athro Timothy Bowen (Ysgrifenydd y Gymdeithas) a Dr. Soma Meran (ill dau o'r UYAC) yn aelodau o'r pwyllgor llywio ac fe gyflwynodd Dr Aeliya Zaidi a Shrea Roy eu hymchwil. Cynhelir y gynhadledd hon bob yn 2 flynedd. Eleni denodd y gynhadledd 142 o gyfranogwyr o fwy na 15 o wledydd ac fe gafwyd 53 o gyflwyniadau llafar a 43 o gyflwyniadau poster. Mae'r gynhadledd yn dwyn ynghyd ystod eang o ymchwilwyr, o wyddoniaeth sylfaenol lefel moleciwlaidd i ymchwilwyr clinigol ac roedd hefyd gynrychiolwyr o 25 o gwmiâu diwydiannol a fferyllol.

Dyfarwyd gwobrau teithio gan y gymdeithas i Aeliya a Shrea, tra bo Soma wedi ei hethol yn Is-lywydd, Is-adran Gwyddorau Clinigol y Gymdeithas.

Cyfarfod Blynyddol UYAC

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol ar 27^{ain} Medi, 2023 yn adeilad SPARK Prifysgol Caerdydd, gyda 45 o fynychwyr lleyg, gwyddonol a chlinigol. Cafwyd 16 o gyflwyniadau llafar gan aelodau'r UYAC ar bynciau yn amrywio o ymchwil Gwyddor Gymdeithasol megis "Pam bod pobl yn dweud 'na' i drawsblaniad aren? Deall penderfyniadau a dewisiadau cleifion: astudiaeth ffenomenolegol ddeongliadol" (gweler manylion llawn yr astudiaeth ar †17-18) i ymchwil Treialon Clinigol megis "Monitro glwcos parhaus mewn dialysis peritoneol" ac ymchwil gwyddoniaeth sylfaenol megis "Defnyddio peptidau sy'n deillio o Dderbynnydd Tolaidd i hybu ymateb imiwneidd cleifion CKD". Roedd hefyd wobr am y cyflwyniad poster gorau, gyda Dr Dan Smith yn fuddugol.



CYNHADLEDD YNG NGHYMURU

Wythnos Arennau'r DU, Mehefin 5^{ed}-7^{fed}, 2023



Wythnos Arennau'r DU yw cyfarfod gwyddonol, addysgol a rhwydweithio blynyddol yr [UK Kidney Association](#) ac mae'n adnabyddus am ei ymchwil gyfoes, darlithoedd o'r radd flaenaf, a'i symposia, cyflwyniadau a gweithdai amrywiol.

Mae'r digwyddiad yn gyfle eithriadol i holl weithwyr proffesiynol ym maes arenau ymgysylltu â chydweithwyr, rhwydweithio ag arbenigwyr, ac archwilio'r ymchwil a'r arloesi diweddaraf a fydd yn llywio dyfodol gofal iechyd sy'n gysylltiedig â'r arenau. Cynhaliwyd y cyfarfod yn y Ganolfan Gynadleda Rhyngwladol yng Nghasnewydd. Er anrhydedd i'r rhanbarth, roedd ffocws Cymreig cryf yn y rhaglen gyda sesiynau ar ddysgu ar y cyd o Gymru ac o Uned Ymchwil Arennau Cymru - yn cysylltu ymchwilwyr gyfa gynnar, cleifion a'r cyhoedd. Y bwriad oedd rhoi llwyfan i dalent ar ddechrau eu gyfa o fewn yr UYAC ac amlygu rhai o'r gweithgareddau ymchwil allweddol ledled Cymru, gan gynnwys cysylltiad â chleifion a'r cyhoedd.

Dywedodd **Yr Athro Donald Fraser**: "Wythnos Arennau'r DU yw'r digwyddiad mwyaf yn y DU ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes arenau. Rydw i mor falch o weld gwaith sêr ymchwil ifanc o Brifysgolion Bangor, Abertawe a Chaerdydd, ynghyd â'r rhaglen o waith sydd yn canolbwyntio ar gleifion a'r cyhoedd dan arweinyddiaeth *Popham Kidney Support* a'r cynlluniau cymorth a ddarperir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mor flaenllaw yng nghyfarfod y flwyddyn hon. Bydd y sesiwn hwn yn gyfle gwych i glywed gan sêr ymchwil y dyfodol yng Nghymru ac i glywed sut i gymryd rhan yn eu gwaith".

Estynnodd **Eluned Morgan**, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru groeso i'r cynadleddwyr gan agor sesiwn cyntaf y dydd. Cynrychiolwyd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gan **Alex Hills** a'r **Pennaeth Rhaglenni, Michael Bowdery** a gyflwynodd "Cyfleoedd ar gyfer ymchwilwyr ar ddechrau eu gyfa yng Nghymru." Dywed **Michael Bowdery**: "Rydym wrth ein bodd bod Wythnos Arennau'r DU wedi dod i Gymru. Mae'n gyfle gwych i roi llwyfan i waith Uned Ymchwil Arennau Cymru, a'r cyllid sydd ar gael ar gyfer ymchwilwyr gyfa gynnar drwy Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn y mae ymchwil hynod bwysig hwn."

Cyfranwyr
sesiynau UYAC



Mae **Dr Tanya Smith** yn hyfforddai anaestheteg academaidd sydd newydd dderbyn cymrodoriaeth bersonol gan *Kidney Research UK*



Mae **Dr Leah McLaughlin** wedi datblygu rhaglen o astudiaethau cydgyhyrchiol gyda chyllid grant allanol sylweddol.

Mrs Joanne Popham yw arweinydd un o'r prif elusennau penodol i'r arenau yng Nghymru (*Popham Kidney Support*) a'i chyflwyniad oedd "Gwell gyda'n gilydd: cynnwys cleifion mewn ymchwil"

Cafwyd cyfanswm o 24 o gyflwyniadau eraill, yn llafar ac ar ffurf poster gan aelodau o'r Uned. Roedd y siaradwyr o'r tri Sefydliad Addysg Uwch sydd yn cyfrannu i'r UYAC (Prifysgolion Bangor, Abertawe a Chaerdydd)

Roedd **Dr Luke Davies** yn fyfyrwr PhD gyda ni, yna aeth i'r *National Institutes of Health* yn America ar Gymrodoriaeth y *Wellcome Trust* cyn dychwelyd i Gaerdydd. Ers hynny fe'i penodwyd yn ddarlithydd newydd yn Adran Gwyddor Biofeddygol, Prifysgol Abertawe

CYNADLEDDAU A GWOBRAU

Cafwyd cynrychiolaeth dda o'r UYAC yn yr **EuroPD**, (Bruges, Hydref 2023), cynhadledd Ewropeaidd a gynhelir pob yn ddwy flynedd ar destun ymchwil dialysis peritoneol, gyda sgwrsiau a chyflwyniadau poster gan gydweithwyr o Brifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe. Yn benodol, cafwyd trosolwg o'r rhaglen IMPROVE-PD (t15), gyda chyflwyniadau gan yr holl fyfyrwyr PhD a'u goruchwylwyr.



Hefyd mynychodd cydweithwyr yr UYAC gyfarfod blynyddol yr **American Society of Nephrology** (Philadelphia, Tachwedd 2023), y cyfarfod arenol rhyngwladol mwyaf a'r mwyaf mawreddog. Bu aelodau'r Uned wrthi'n trefnu ac yn cadeirio sesiynau gyda chyflwynwyr mewn sesiynau llafar a phoster. Roedd Yr Athro Jane Noyes yn brif siaradwr ac yn arweinydd sesiwn ar destun cyd-gynhyrchu gan gynnwys cleifion: **'Nothing about us without us'** -

PPIE and Co-productive research - a sut gall cyd-gynhyrchu wella ein hoffer gwneud penderfyniadau ar y cyd. Cafwyd trafodaethau hefyd o amgylch tegwch mewn Cynnwys a Chysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd (PPIE) a Chynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) mewn ymchwil labordy gyda chanllawiau ac esiamplau a pham fod angen i bobl sydd â chlefyd yr arenau fedru rhannu eu barn mewn ffyrdd sydd yn cyfrannu at y dystiolaeth.



Yng nghyfarfod yr **International Society for Quality of Life Research (ISOQOL)** (Calgary, Hydref 2023), dysgodd Dr Leah McLaughlin am fesurau Ansawdd Bywyd, gyda rhwydwaith gwych a chynhwysol o ymchwilwyr byd-eang. Cyflwynodd **'Getting the best from your NHS'** (cyhoeddiad yr astudiaeth ar gael [yma](#))




Cynhaliwyd cyfarfod 2023 **Clwb RNA De Orllewin y DU** yn Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd ar 22^{ain} Mehefin. Nod y Clwb, a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2006, yw hyrwyddo cysylltiadau cydweithio, cyfnewid gwybodaeth ac ymweithio rhwng ymchwilwyr sydd â diddordeb ym mioleg RNA yn ne orllewin y DU. Mae'n agored i arbenigwyr a phobl nad ydynt yn arbenigwyr fel ei gilydd; mae croeso

penodol i fyfyrwyr PhD, MSc a BSc. Mae'r Cyfarfod Blynyddol y Gwanwyn yn symud rhwng Bryste, Caerfaddon, Caerwysg a Chaerdydd, ac mae cyfranogiad cryf o ardaloedd pellach i ffwrdd. Trefnwyd cyfarfod Caerdydd gan Yr Athro Tim Bowen a Dr Dan Smith gyda 89 wedi cofrestru ar ei gyfer. Cafwyd 18 o gyflwyniadau llafar gyda 6 ohonynt o'r UYAC.

Ym Mawrth 2024 ar gyfer **#BritishScienceWeek**

cydnabu **Kidney Research UK** 30 o'u doctoriaid, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, athrawon ac ymchwilwyr diweddaraf sydd wedi derbyn grant neu wneud datblygiad arloesol mewn ymchwil, oll yn ymwneud â chlefyd yr arenau. Mae dau ohonynt, Dr Soma Meran (top) a Dr Farah Latif (gwaelod ar y dde) yn aelodau o UYAC, a chafodd cydweithwyr ym Mryste sylw hefyd (de i'r chwith: Yr Athro Gavin Walsh, Moin Saleem a Richard Coward).



Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain 2024

Mae Sasha Moore yn hyfforddai areneg ac fe gyflwynodd astudiaeth DEFINE (Determining outcomEs in Failing traNsplanted kidnEys) yn y sesiwn Ffau'r Dreigiau yng Nghynhadledd Flynnyddol 2024 Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain 2024

Fe wyddom fod tua 800-1000 o drawsblaniadau arenau yn methu yn y DU pob blwyddyn. Fe wyddom fod hyn yn amser hynod heriol i gleifion sydd ag aren wedi ei thrawsblannu, ond ychydig iawn o ymchwil sydd gennym i'n harwain ar y strategaethau rheoli gorau a'r dulliau ehangach gorau posib o gefnogi cleifion. Rydym yn awyddus i gynnal astudiaeth i ddeall pam bod cleifion gyda thrawsblaniadau aren sy'n methu yn dechrau ar ddialysis pan fyddant yn gwneud hynny (fe wyddom ei fod yn gyntaf na chleifion sydd â methiant mewn aren gyngenid, ond wyddom ni

ddim pam), sut a pham y caiff meddyginiaeth ei newid a sut mae cyflyrau meddygol eraill yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau.

Enillodd gysyniad y prosiect sesiwn Ffau'r Dreigiau ar gyfer [#DEFINestudy](#) fel y meddyg cyntaf a'r enillydd cyntaf o Gymru. Y nod yw gwneud yr astudiaeth yn astudiaeth ar draws y DU, ac yn aml-ganolfan dan arweiniad Caerdydd ac rydym ar hyn o bryd ar y cam cynllunio prosiect. Rydym yn awyddus i weithio gyda chleifion trwy bob cam o'r astudiaeth a byddem yn gwerthfawrogi'n fawr iawn unrhyw fewnbwn ar nodau'r astudiaeth a'r allbynnau y bwriadwn eu hasesu.

Dywedodd Sasha ei fod "wrth ei fodd o ennill Ffau'r Dreigiau [#BTS2024](#) yn BTS 2024" a'i fod wedi derbyn "adborth hynod ddefnyddiol gan y Dreigiau". Mae'n "argymhell y profiad i unrhyw un."

Cyflwynodd Sasha'r astudiaeth hefyd i grŵp

ffocws Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd UYAC, ble dywedodd un mynychwr: "Mae'n ymddangos yn brosiect tu hwnt o werth chweil sy'n anelu at wella'r canlyniadau o drawsblaniadau ac edrych ar elfennau penodol o'r broses sy'n peri problemau, felly rwy'n dymuno pob llwyddiant iddyn nhw ac yn gobeithio y cânt yr hyn sydd ei angen arnynt naill ai'n ariannol neu adnoddau digonol i barhau." Mae Sasha bellach wedi ei benodi i Drac Academaidd Clinigol Cymru ac i Feddygaeth Arenol ST4, a'i rancio'n 3ydd yn y broses ddethol genedlaethol.



CASGLIAD

Diolch ichi am eich diddordeb yn ein gwaith ac am roi o'ch sylw i'r adroddiad hwn. Os hoffech gael gwybod mwy, os hoffech chi gymryd rhan, neu os oes gennych chi syniad newydd am waith y dylem ni ei wneud i ddeall a gwella pethau ar gyfer pobl sy'n cael eu heffeithio gan glefyd yr arenau, yna fe hoffem glywed gennych chi! Mae modd cysylltu â ni mewn sawl ffordd – mae ein manylion cyswllt ar y dudalen olaf.

Yr Athro Donald Fraser, Cyfarwyddwr UYAC

Uned Ymchwil Arennol Cymru Wales Kidney Research Unit



UYAC
Neffroleg
Prifysgol Caerdydd
Parc y Mynydd Bychan
Caerdydd
CF14 4XN



designed by  freepik



02921848469



colmontcs@cf.ac.uk



www.kidneyresearchunit.wales



@theWKRU

